Ysgol Frongoch
Ffordd y Rhyl
Dinbych
LL16 3DP

20/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Tachwedd 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Frongoch i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dwy flaenoriaeth o gynllun datblygu'r ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

**Ffocws yr ymweliad**

**Datblygu annibyniaeth disgyblion, gan eu galluogi i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm**

- Mae gan arweinwyr gynlluniau priodol ar waith i ddatblygu'r agwedd hon ac maent yn monitro effaith gweithgareddau gwella ar addysgu a dysgu yn effeithiol.
- O ganlyniad i gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i staff, mae cyfleoedd gwerthfawr ar gael bellach i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth a sut maent yn dysgu yn y dosbarth.
- Mae arweinwyr a staff wedi datblygu ymagwedd ysgol gyfan tuag at ddysgu. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd dysgu trawsgwricwlaidd cyson a phwrpasol sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd da a datblygu eu hannibyniaeth wrth gymhwyso eu medrau.
- Mae'r amgylchedd dysgu yn ddifyr ac wedi'i lunio i hybu dysgu'n annibynnol. Mae disgyblion yn manteisio ar ystod o adnoddau o ansawdd da, ardaloedd hunangymorth fel y 'Wal Weithio' a strategaethau cefnogol sy'n eu tywys i gwblhau tasgau heb fod angen cymorth gan oedolyn bob tro.
- Mae disgyblion iau yn ymgysylltu â thasgau yn fodlon ac maent yn awyddus i roi cynnig ar eu syniadau. Lle mae staff yn gosod amcanion dysgu clir, mae disgyblion yn ymateb yn dda, gan ddyfalbarhau'n aml a chymhwyso eu medrau meddwl i ddod o hyd i ateb.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn annibynnol yn fwyfwy hyderus. Maent yn cymhwyso eu dysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio adnoddau defnyddiol i gwblhau tasgau sy'n cynnig her addas yn effeithlon heb gymorth oedolion.
- Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dylanwadu ar gynnwys eu dysgu a, phan gânt gyfle i wneud hynny, gallant benderfynu ar y ffordd orau i gyflwyno eu gwaith.

**Sicrhau bod addysgu'n herio pob disgybl**

- Ar draws yr ysgol, mae gan staff ddisgwyliadau cyson uchel o bob disgybl. Maent yn cynllunio gweithgareddau dysgu difyr a phwrpasol sy'n cyfateb yn dda i alluoedd disgyblion ac sy'n eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu yn llwyddiannus.
- Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff yn defnyddio holi effeithiol i ddatblygu meddwl disgyblion ac atgyfnerthu'r dysgu. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau ymarferol i gefnogi disgyblion yn bwrpasol yn eu dysgu.
- Mae staff yn rhannu amcanion dysgu clir ac yn esbonio gweithgareddau dysgu yn dda. Mae hyn yn galluogi disgyblion o bob gallu i ddeall disgwyliadau a gwneud cynnydd da dros gyfnod.
- Lle bo'n briodol, mae staff yn cymryd saib mewn sesiynau dysgu i gynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu ac ystyried sut y gallant herio eu hunain i wella eu gwaith.
- Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth aeddfed o sut maent yn dewis lefel briodol o her. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i ddarparu cymorth targedig i'r rhai sydd ei angen a chynnig 'gweithgareddau her' addas i'r rhai sy'n fwy abl.
- Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill i rannu arfer dda a chysoni disgwyliadau o ran cynnydd disgyblion â lefel yr her ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae'r dull hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gysondeb mewn safonau ar draws yr ysgol ac ar ansawdd darpariaeth i fodloni anghenion disgyblion.
- Mae arweinwyr yn defnyddio monitro pwrpasol i sicrhau cysondeb mewn addysgu a lefel briodol o her ar draws dosbarthiadau.

Gellir dod o hyd adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6632125

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol